# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **10 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**

Deddfwriaeth Ddomestig

Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995

Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Lluosogi Planhigion Addurniadol 1999

Rheoliadau Deunyddiau Atgenhedlol Coedwigoedd (Prydain Fawr) 2002

Rheoliadau Marchnata Hadau 2011

Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Lloegr) 2017

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae amrywiadau planhigion a hadau yn faes polisi datganoledig.

Mae'r rhan fwyaf o'r Rheoliadau yn gymwys i Lloegr yn unig ond nid yw'r darpariaethau sy'n gymwys i Gymru yn trosglwyddo swyddogaethau newydd nac yn cael effaith uniongyrchol ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Mae'r diwygiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu gwneud i Reoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995 a Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Lluosogi Planhigion Addurnol 1999 yn gymwys o ran Cymru a Lloegr. Mae'r diwygiadau a wnaed i Reoliadau Deunyddiau Atgenhedlol Coedwigoedd (Prydain Fawr) 2002, Rheoliadau Marchnata Hadau 2011 a Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Lloegr) 2017 yn gymwys i Loegr yn unig. Caiff gorchymyn ar wahân ar gyfer Cymru yn unig ei ddrafftio i gyflwyno'r newidiadau sy'n weddill o ran Cymru.

**Diben y diwygiadau**

Nid yw'r diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn yn golygu newid polisi. Mae'r darpariaethau yn y Rheoliadau hyn sy'n gymwys i Gymru yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion fydd yn codi mewn deddfwriaeth marchnata ddomestig, megis dileu cyfeiriadau at y Comisiwn, y Gymuned ac Aelod-wladwriaethau a disodli cyfeiriadau at "drydydd gwledydd". Er mwyn sicrhau cyflenwadau o ddeunydd lluosogi a had y mae'r DU yn ddibynnol ar yr UE ar eu cyfer ar hyn o bryd, maent hefyd yn darparu cyfnod dros dro o ddwy flynedd pan gaiff cyflenwadau o had ardystiedig a deunydd lluosogi gan yr UE barhau i gael ei farchnata yn y DU.

Mae'r OSau a'r Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â nhw, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.